# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## Cofnodion (CWLS(2)-08-05)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2005

Amser y cyfarfod: 9.00am – 12.00pm

Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Gorllewin Casnewydd |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Alun Pugh (y Gweinidog) | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Enw | Teitl Swydd |
| Margaret Evans | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |

### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Bridget Gill | Cyfarwyddwr Artistig, Opera Dinas Abertawe | 5 |
| Brendan Wheatley | Cyfarwyddwr Artistig, Opera Dinas Abertawe | 5 |
| Mike Stock | Cadeirydd, Opera Dinas Abertawe | 5 |
| Peter Tyndall | Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru | 6 |
| Ruth Till MBE | Aelod o'r Cyngor, Cyngor Celfyddydau Cymru | 6 |
| Siri Wigdell | Cyngor Celfyddydau Cymru | 6 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Julia Annand | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Yr Is-adran Gyfreithiol<br><br>O Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1. Esboniodd y Cadeirydd na fu modd cynnal y cyfarfod yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe o ganlyniad i bwysau gwaith. Y gobaith fyddai trefnu ymweliad yno ar ôl yr agoriad ym mis Hydref.
2. Datganodd Leighton Andrews fuddiant, gan nodi bod ei wraig yn Gyfarwyddwr Sgript Cymru.
3. Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.
4. Nododd y Cadeirydd y bu'r ymweliad diweddar â Chaeredin i gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus iawn.

Camau i'w cymryd

- Byddai'r sesiwn hyfforddi ar 19 Gorffennaf a drefnwyd gan Gyngor Cymru i'r Deillion yn cael ei ohirio tan fis Medi.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Papurau: CWLS2 07-05 (min)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cryno y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, yn amodol ar fân newid i enw un o'r cyflwynwyr.

Camau i'w Cymryd o Gyfarfodydd Blaenorol

- Byddai'r Gweinidog yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael copi o'i lythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 27 Mehefin, ynglyn â'r Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol (o 18 Mai).
- Byddai llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch swydd y Dyfarnydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan (o 15 Mehefin).
- Byddai nodyn y Gweinidog ar gyllid ar gyfer Eisteddfodau bach yn cael ei gyhoeddi’n fuan (o 15 Mehefin).

## Eitem 3: Blaenraglen Waith

Papurau: CWLS2 08-05 (p 1)

Camau i'w cymryd

- Y Gweinidog i baratoi papur ar y Bwrdd Diwylliant ar gyfer y cyfarfod ym mis Medi.
- Gwasanaeth y Pwyllgorau i baratoi amlinelliad o'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod erbyn y cyfarfod ym mis Medi.
- Ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol:
- Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau i baratoi papur ar y gwasanaeth radio digidol sydd ar gael yng Nghymru.
- Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau i baratoi papur ar y Papur Gwyn ar yr Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys materion trawsbynciol.
- Byddai cais yn cael ei wneud am bapur gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar faterion hyfforddi yn ymwneud â phêl droed yng Nghymru.
- Cytunwyd y byddai Elin Jones a Leighton Andrews yn rapporteurs ar gyfer unrhyw adolygiad o faterion yn ymwneud â phêl-droed.
- Byddai Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau yn paratoi papurau yn ôl yr angen ar y broses o graffu ar y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Byddai'r Gweinidog yn paratoi papurau yn ôl yr angen ar ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.
- Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda ar gyfer y cyfarfod ar 29 Medi yn cynnwys:

- cyflwyniad gan yr Eisteddfod Genedlaethol / Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
- papur ar y Bwrdd Diwylliant,
- Adroddiad y Gweinidog,
- monitro'r Gyllideb yn dymhorol am y tro cyntaf,
- Mesur y Loteri,
- y Flaenraglen Waith.
- Cytunwyd (o dan Reol Sefydlog 8.24(vi)) y dylid trafod drafft cyntaf adroddiad yr Adolygiad o Ddawns yng Nghymru mewn sesiwn preifat.

## Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog

Papur: CWLS2 08-05(p.2)

Camau i'w cymryd

- Y Gweinidog i ymhelaethu ar y sefyllfa ddeddfwriaethol o ran sefydlu swydd y Dyfarnydd
- Byddai'r Gweinidog yn codi mater yr arwyddion Saesneg yn unig (yn Aberystwyth) gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth.
- Y Gweinidog i ddarparu mapiau o'r rhwydwaith seiclo sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru.

## Eitem 5: Opera Dinas Abertawe

Papur: CWLS2 08-05(p.3)

5.1 Cafwyd cyflwyniad gan Brendan Wheatley a Bridget Gill, Cyfarwyddwyr Artistig a Mike Stock, Cadeirydd Opera Dinas Abertawe ar waith Opera Dinas Abertawe, ac atebwyd cwestiynau'r Aelodau.

## Eitem 6: Adolygiad Polisi: Dawns yng Nghymru - Dadansoddi'r Adolygiad

Papur: CWLS2 08-05(p.4)

1. Cafwyd cyflwyniad gan Peter Tyndall, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, ar adolygiad y Pwyllgor o Ddawns yng Nghymru, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

Camau i'w cymryd

- CCC i ddarparu manylion y costau'n ymwneud ag agweddau addysg ar ddawns erbyn yr Hydref.
- CCC i restru'r cynigion o ran eu blaenoriaethau ar gyfer y cyllid ychwanegol o £1.35m ar gyfer Dawns yng Nghymru. Awgrymwyd y dylai adroddiad y Pwyllgor gynnwys y materion a godwyd gan CCC, a chyfeirio hefyd at:
- ddawns mewn cyd-destun rhyngwladol

- cefnogaeth ar gyfer dawnswyr talentog
- datblygiad gyrfa ar gyfer dawnswyr
- Yn gyffredinol, dylai'r adroddiad ymdrin â dawns mewn cyd-destun Cymru-gyfan.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

**Gorffennaf 2005**